TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

CBAC Gofal Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 3

Yn gryno

Mae'r cymhwyster hwn yn caniatáu dysgwyr i ddatblygu'r wybodaeth a sgiliau angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth a/neu ddatblygu gyrfa mewn lleoliadau gofal plant neu iechyd.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Hoffech weithio ar lefel goruchwylio

... Oes gennych ddiddordeb brwd mewn gofal plant

... Hoffech symud ymlaen i radd mewn disgyblaeth gysylltiedig.

Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae hon yn rhaglen am ddwyflynedd, sydd fel arfer yn cynnwys3 diwrnod ar y campws a 2 ddiwrnod mewn lleoliad gwaith.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Byddwch angen cwblhau lleiafswm o 700 awr mewn lleoliad gwaith dros gyfnod o ddwy flynedd, wrth ddilyn elfennau damcaniaethol yn y coleg.

Bydd dysgwyr yn gwneud amrywiaeth o asesiadau yn ystod lleoliadau gwaith, ynghyd ag asesiadau mewnol ac allanol ar gyfer yr elfennau damcaniaethol.

Wedi i chi gwblhau'r cwrs byddwch wedi cyflawni:

Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 3 Craidd ac Ymarfer Theori
L2 CCPLD Craidd
Hylendid Bwyd
Cymorth Cyntaf Pediatrig

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Bydd disgwyl i chi ymrwymo i astudio am 5 diwrnod, ac mae hynny'n cynnwys dysgu'r elfen wybodaeth o'r cymwysterau yn y coleg, a diwrnodau/blociau lleoliad gwaith ar gyfer yr elfen gymhwystra o'r cymwysterau.

Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn ofynnol, yn ogystal â pharch tuag at eraill, y gallu i gymell eich hun a brwdfrydedd tuag at y diwydiant gofal.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn, gallech ystyried dilyn cyrsiau Addysg Uwch mewn meysydd cysylltiedig, neu swyddi fel gweithiwr gofal, gwarchodwr plant, neu nyrs feithrinfa.

Gwybodaeth Ychwanegol

Rhaid i bob dysgwr gael gwiriad DBS Manwl boddhaol cyn dechrau'r cwrs (ar eu cost eu hunain).

Rhaid i geisiadau DBS gael eu cynnal yng Coleg Gwent.